**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar**

**Blant sy'n Derbyn Gofal**

**Dydd Mawrth 13 Mawrth 2018**

**12.15–13.30**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC – Cadeirydd (DM)

**Yn bresennol:**

Anna Collins – Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – Pen-y-bont ar Ogwr (AC)

Bethan T James – Cyngor Sir Gaerfyrddin (BTJ)

Deborah Jones – Voices From Care Cymru (DJ)

Jackie Murphy – Tros Gynnal Plant (JM)

Sean O'Neil – Plant yng Nghymru (SON)

Jack Sellers – Swyddfa David Melding AC

Bill Thomas – Swyddfa Joyce Watson AC (BT)

Ceri Williams – Gofal Cymdeithasol Cymru

Charlotte Wooders – Rhwydwaith Maethu Cymru

Tim Crahart – Rheolwr Cymorth Busnes, Voices From Care Cymru – (cofnodwr) (TC)

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

Beth Beynon – Stepping Stones

Mary Clune – Gweithiwr Cymdeithasol

Sharon Lovell – Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru

Y Parchedig Philip Mangham – Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Emma Sullivan – Plant yng Nghymru

Lee Waters AC

Dan Willis – Stepping Stones

**1. Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd**

Agorodd DM y cyfarfod a chroesawodd y rhai a oedd yn bresennol. Yna, cyflwynodd pawb a oedd yn bresennol eu hunain, gan fod nifer o bobl yn mynychu cyfarfod y Grŵp am y tro cyntaf.

**2. Cofnodion**

Gwiriwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2017. Gwnaed un cywiriad gan fod Anna Collins wedi mynychu'r cyfarfod ond nid oedd hi wedi'i chofnodi yn bresennol. Cymeradwywyd gweddill y cofnodion.

**3. Materion yn codi**

Gofynnwyd i Sharon Lovell wneud cyflwyniad yn y cyfarfod hwn ond nid oedd hi'n gallu bod yn bresennol, felly JM oedd yn cyflwyno ar ran Tros Gynnal Plant a NYAS Cymru.

Anfonodd DJ bapur at Lee Waters ar y sector preswyl preifat.

Gofynnwyd i DJ a allai rhywun o Ogledd Iwerddon neu Sir Gaerfyrddin gyflwyno i'r Grŵp ar gyrhaeddiad addysgol. Mynychodd BTJ y cyfarfod o Sir Gaerfyrddin.

**Cam gweithredu i'w gymryd – LW i ysgrifennu at y Gweinidog newydd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf o ran y Gronfa Dydd Gŵyl Dewi.**

**Cam gweithredu i'w gymryd – MT i ddosbarthu'r papur ar Ofal a Phobl Ifanc i'r grŵp**

**Cam gweithredu i'w gymryd – Rhoi adborth i LW ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog (MAG)**

**Cam gweithredu i'w gymryd – LW i wirio a oes cynrychiolydd CAMHS yn y MAG.**

**4. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Briffiodd DM y grŵp ar y cynnydd a wnaed gan y Pwyllgor. Esboniodd mai adolygiad tymor hir yn canolbwyntio ar werth am arian o ran gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal (LAC) yw'r adolygiad. Mae rhan gyntaf yr ymchwiliad yn dod i ben ac roedd nifer o'r sefydliadau yn yr ystafell wedi cymryd rhan yn y broses yn barod.

Bydd yr ail ran yn dechrau ar ôl 30 Ebrill 2018 a bydd yn canolbwyntio ar rianta corfforaethol. Yn dilyn hynny, bydd yr ymchwiliad yn edrych ar y Grant Amddifadedd/Datblygu Disgyblion yn rhan tri, ac ar sefydlogrwydd lleoliadau yn rhan pedwar.

**5. Grŵp Cynghori'r Gweinidog**

Dechreuodd DM drwy ddweud y bydd MAG yn cyfarfod ddydd Gwener i drafod rhianta corfforaethol.

Aeth ymlaen i ddweud bod digwyddiad rhianta corfforaethol wedi'i drefnu gan Voices from Care Cymru (VFCC) a Who Cares? Scotland. Dangosodd y digwyddiad fod llawer o arferion da

yn datblygu ac yn dod i'r amlwg. Yn yr Alban, maent yn cydnabod y Prif Weinidog fel y prif riant corfforaethol. Mae gan yr Alban ddeddfwriaeth yn ei lle hefyd.

Yng Nghymru mae yna bosibilrwydd o gyflwyno Nod Siarter a chanllawiau statudol. Y bwriad yw sicrhau bod gweithwyr yn deall bod plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn gyfrifoldeb i bawb. Dylai'r canllawiau gynnwys:

- Arfer broffesiynol
- Safonau
- Asesiad risg
- Gwasanaethau ar ffiniau gofal

Yr egwyddor yw y bydd gwella gwasanaethau ar ffiniau gofal yn lleihau nifer y lleoliadau.

Aeth DJ ymlaen i ddweud bod y ffocws ar rianta corfforaethol yn waith sy’n mynd rhagddo ac mae angen ehangu beth mae'n ei olygu; hynny yw, i gynnwys gwasanaethau statudol ehangach fel y gwasanaeth tân, yr heddlu, iechyd.

Roedd y digwyddiad hefyd wedi cyfeirio at y cwestiwn ’sut beth yw cariad yn y system ofal?' a sut mae hynny'n ffurfio rhan o becyn gofal iach.

Soniodd DJ am y fenter cydweithio 5 Nations: 1 Voice (5N1V) rhwng VFCC a'i chwaer-sefydliadau ledled y DU a Gweriniaeth Iwerddon, sy'n cynnwys Who Cares? Scotland. Pwrpas 5N1V yw rhannu arferion da a dod â'r gwledydd unigol i fyny at yr un lefel o wasanaeth. Yn ddiweddar, cafodd prif swyddogion 5N1V gyfarfod â chomisiynwyr plant o bob cwr o'r DU ac mae Gweinidog Plant Lloegr yn ymwybodol o'r cydweithio.

Gofynnodd AC a oes gan bob awdurdod lleol gynghorydd LAC. Dywedodd DM fod hyn yn gywir. Yna, trafodwyd y gefnogaeth sy’n cael ei rhoi i gynghorwyr, a chododd y cwestiwn a ddylid cynnal digwyddiad rhianta corfforaethol yn flynyddol ar gyfer gwleidyddion.

Mae SON yn rhan o grŵp gweithrediadau MAG. Roedd y grŵp wedi cynnal cyfarfod yng ngogledd Cymru. Dywedodd SON ei bod yn rhaglen uchelgeisiol ac mae nifer o weithgareddau wedi'u cyflwyno eisoes. Gwnaed peth gwaith pwrpasol o gwmpas datblygu gwell dealltwriaeth o wasanaethau ar ffiniau gofal. Roedd y grŵp hefyd yn edrych ar nodi anghenion gofal a chymorth, a gwahanol lwybrau allan o ofal. Datblygwyd nifer o gamau gweithredu ond roedd angen edrych ar ganlyniadau. Nodwyd bod problemau yn ymwneud â rhannu’r wybodaeth sy’n deillio o Lywodraeth Cymru gyda sefydliadau'r trydydd sector.

Dywedodd DM fod y grŵp bellach yn symud ymlaen i wneud penderfyniadau. Roedd SON yn teimlo bod angen adolygu/gwerthuso MAG. Ychwanegodd DJ fod angen clustnodi amser i ganolbwyntio ar broblemau/ffrydiau gwaith, gan adlewyrchu beth sydd eisoes wedi’i roi ar waith a beth sy’n gweithio.

**Cam gweithredu – Gwerthuso Grŵp Cynghori'r Gweinidog (DM)**

6. **Cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb ar y dull gweithredu cenedlaethol o ran eiriolaeth statudol yng Nghymru**

Rhoddodd JM y cyflwyniad ar ran Tros Gynnal Plant a NYAS Cymru.

Dywedodd DM fod cynnydd gwirioneddol wedi bod o ran y dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth statudol ac y bydd y data o gymorth i waith y Cynulliad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Bydd gwybodaeth yn allweddol.

Dywedodd JM mai'r prif faterion yr oeddent yn dod ar eu traws oedd: cyswllt, newid gweithiwr cymdeithasol, gadael gofal, 'ble fyddaf i/beth sy'n digwydd i mi?', a diogelu.

**Cam gweithredu – Dosbarthu'r cyflwyniad eirioli statudol i aelodau etholedig (DM)**

Dywedodd DJ nad yw eirioli mor annibynnol ag y gallai fod o hyd. Nid yw pobl ifanc yn ymddiried mewn eiriolaeth statudol. Ychwanegodd JM fod grŵp gorchwyl a gorffen wedi bod yn awgrym a ddaeth o MAG. Dywedodd DJ fod yna gyfleoedd i ddefnyddio eiriolaeth cyfoedion ac eiriolaeth gymunedol. Gallai edrych ar eiriolaeth wirfoddol fod y cam nesaf.

Cododd JM y mater o gartrefi plant preifat, a'r ffaith ei fod yn arfer da i oedolyn dibynadwy ymweld bob wythnos.

Ychwanegodd SON nad oes llawer o blant a phobl ifanc yn ymwybodol o eiriolaeth ac y dylid cael gwerthusiad cadarn o'r dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau eirioli. Dywedodd hefyd mai dim ond yn y tymor byr y mae'r cyllid ar gyfer y cynnig gweithredol ar gael.

Gofynnodd BT a oedd unrhyw fylchau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Atebodd JM nad oedd, a bod y niferoedd yn dda. Ychwanegodd fod poblogaeth sefydlog o weithwyr cymdeithasol yn yr ardal. Dywedodd hefyd y gall eiriolaeth fod yn ddefnyddiol iawn o ran anableddau ac addysg.

Gofynnodd AC am y cynnig gweithredol a dywedodd JM eu bod yn datblygu hyfforddiant ar-lein i weithwyr cymdeithasol.

Esboniodd JM eu bod yn adolygu eiriolaeth mewn iechyd. Fodd bynnag, nid yw'r olion traed rhanbarthol yn cyd-fynd â'r olion traed bwrdd iechyd.

Daeth DP â'r drafodaeth i ben drwy ddweud nad yw eiriolaeth statudol wedi'i sefydlu yn ymwybyddiaeth rhieni corfforaethol. Nid yw'n ymddangos bod addysg nac iechyd o gwmpas y bwrdd trafod o ran eiriolaeth a gall MAG helpu i fynd i'r afael â hyn.

**Cam gweithredu - Cylchredeg y cyflwyniad eiriolaeth statudol i'r grŵp trawsbleidiol (TC)**

7. **Cyflwyniad ar gyrhaeddiad addysgol yn Sir Gaerfyrddin**

Dechreuodd BTJ drwy gyflwyno ei hun ac esboniodd mai hi yw'r rheolwr gwasanaeth ar gyfer rhianta corfforaethol a lles plant yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Mae hi wedi bod yn y rôl rianta corfforaethol ers deng mlynedd. O ran cyrhaeddiad addysgol, mae hi wedi monitro ac archwilio ysgolion nad ydynt yn diwallu anghenion pobl ifanc.

Dywedodd BTJ eu bod wedi cyflwyno model perthynol ac ysgol gyfan yn Sir Gaerfyrddin, lle hyfforddwyd yr holl staff yn y dull gweithredu. Mae gan yr awdurdod Strategaeth Rhianta Corfforaethol a Chynllun Gweithredu Rhianta Corfforaethol. Eu dull nhw o weithio yw ystyried bod y rôl Rhiant Corfforaethol yn ymestyn i ysgolion, tai ac ati, ac maent yn gofyn y cwestiwn: beth yr ydych chi'n barod i'w ddarparu i bobl ifanc? Diogelwch, dyhead, gwaith dal i fyny.

Nododd DJ fod y Grant Amddifadedd/Datblygu Disgyblion yn mynd yn ôl i ysgolion, sy'n siomedig. Cytunodd BTJ gan nodi nad yw'r model perthynol yn ddrud, ac mae'n gost-effeithiol gan ei fod yn dod yn hunangynhaliol unwaith y bydd tîm cyfan wedi'i hyfforddi.

Nododd JM sut mae'r model perthynol yn debyg i'r dull adferol.

Dywedodd BTJ ei fod yn fodel ymlyniad perthynol sy'n seiliedig ar gryfderau. Esboniodd fod angen i ni helpu plant i deimlo'n ddiogel gan fod y rhan fwyaf o'r ymddygiad negyddol a welir yn gysylltiedig ag ofn. Maent yn edrych ar reoli emosiynau a gwydnwch emosiynol. Nododd BTJ fod yr Alban yn archwilio sut beth yw cariad yn y system ofal, tra bod Sir Gaerfyrddin wedi bod yn edrych ar berthnasau.

Gofynnodd JM am yr effaith ar bresenoldeb a dywedodd BTJ fod presenoldeb wedi gwella ers iddynt gyflwyno'r dull gweithredu. Mae ganddynt hefyd nifer isel o blant coll a phlant sydd mewn perygl o ddioddef cam-fanteisio rhywiol. Maent yn olrhain canlyniadau hirdymor ar gyfer pobl ifanc hyd at 25 oed.

Gan fod DM wedi gorfod gadael y cyfarfod cyn diwedd y cyflwyniad, daeth DJ i'r gadair am weddill y cyfarfod. Teimlai DJ y dylid rhannu'r arferion da o'r cyflwyniad gyda DM. Teimlai hefyd y byddai'n werth nodi'r ffordd y mae Sir Gaerfyrddin wedi defnyddio'r Grant Amddifadedd/Datblygu Disgyblion.

**Cam gweithredu – Rhannu arfer da o gyflwyniad BTJ gyda DM (TC)**

**Cam gweithredu – Rhannu sut roedd Sir Gaerfyrddin wedi defnyddio'r Grant Amddifadedd/Datblygu Disgyblion (TC)**

Ychwanegodd BTJ ei fod yn drueni nad oedd gan awdurdodau y cyfle i rwydweithio, i rannu arferion da nac i fynychu digwyddiadau cenedlaethol. Teimlai y byddai dysgu ar y cyd yn werthfawr.

**Cam gweithredu – Gwahodd BTJ i gyflwyno i MAG (DM)**

Awgrymodd DJ fod DM yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg ynglŷn â'r arferion da yn Sir Gaerfyrddin.

**Cam gweithredu – Gofyn bod DM yn ysgrifennu at Kirsty Williams (Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) ynglŷn â'r arferion da yn Sir Gaerfyrddin.**

## 8. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall.

## 9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

I'w gadarnhau